

**2019 Rhif (Cy. )**

**2019 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r  
A40 (Cyfnewidfa Coldra,  
Casnewydd i Ffin Cymru/Lloegr,  
Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a  
Chyfyngiadau Traffig Dros Dro)  
2019

The A449 & A40 Trunk Roads  
(Coldra Interchange, Newport to  
the Wales/England Border,  
Monmouthshire) (Temporary  
Traffic Prohibitions & Restrictions)  
Order 2019

*Gwnaed* 25 Tachwedd 2019

*Made* 25 November 2019

*Yn dod i rym* 2 Rhagfyr 2019

*Coming into force* 2 December 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffyrdd yr A449 a'r A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A449 and A40 Trunk Roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 (Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 2 Rhagfyr 2019.

1. The title of this Order is the A449 & A40 Trunk Roads (Coldra Interchange, Newport to the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2019 and it comes into force on 2 December 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw Cefnffyrdd yr A449 a'r A40 Casnewydd i Gaerwrangon;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2); a
- (b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 2 Rhagfyr 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o’r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2); and
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the A449 and A40 Newport to Worcester Trunk Roads;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 2 December 2019 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

### Prohibitions and Restrictions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

5. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

6. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad yn erthygl 6 yn weithredol.

### Cymhwysio

8. —(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

9. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 4, 5 a 6 yn weithredol.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

25 Tachwedd 2019

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

6. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order.

7. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk roads specified in Schedule 2 to this Order during such times as the restriction in article 6 is in operation.

### Application

8. —(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### Suspension

9. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 4, 5 and 6 are in operation.

### Duration of this Order

10. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

Dated

25 November 2019

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management & Standards  
Welsh Government

## ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A449 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24) hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Rhaglan yr A449 a'r A40, Sir Fynwy.

## SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

The length of the A449 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Coldra Interchange, Newport (Junction 24) to the centre-point of the A449 and A40 Raglan Interchange, Monmouthshire.

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy.

Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy.

#### **ATODLEN 2**

##### **Terfynau Cyflymder Dros Dro o 50 mya, 40 mya neu 10 mya a Dim Goddiweddyd**

Y darn o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 sy'n ymestyn o'u cyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24 yr M4) hyd at ganolbwynt trosbont Chapel Lane, i'r gogledd o Drefynwy.

The lengths of the A449 northbound and southbound exit and entry slip roads at Usk Interchange, Monmouthshire.

The lengths of the A449/A40 northbound and southbound exit and entry slip roads at Raglan Interchange, Monmouthshire.

#### **SCHEDULE 2**

##### **Temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph Speed Limits & No Overtaking**

The length of the A449 and A40 trunk roads that extends from its junction with the circulatory carriageway of Coldra Interchange, Newport (M4 Junction 24) to the centre-point of Chapel Lane over-bridge, north of Monmouth.

**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A449A'R A40  
(CYFNEWIDFA COLDRA, CASNEWYDD I FFIN  
CYMRU/LLOEGR, SIR FYNWY)  
(GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU  
TRAFFIG DROS DRO) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A449 a'r A40, neu gerllaw iddynt, rhwng Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd a Ffin Cymru/Lloegr, i'r gogledd o Drefynwy, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya neu 10 mya ar y darn o'r A40/A449 a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn weithredol pan fydd gwaith confoi yn digwydd ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn dod i rym ar 2 Rhagfyr 2019 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 - 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am gau'r ffyrdd yn cael ei arddangos cyn i unrhyw waith ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A449 & A40 TRUNK ROADS (COLDRA  
INTERCHANGE, NEWPORT TO THE  
WALES/ENGLAND BORDER,  
MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC  
PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER  
2019**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A449 and A40 trunk roads between the Coldra Interchange, Newport and the Wales/England border, north of Monmouth, Monmouthshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A449 and A40 trunk roads specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are also described therein.

ii. impose a 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limit on the length of the A40/A449 specified in Schedule 2 to this Notice. The 10 mph speed limit will operate during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

It is expected that the temporary prohibitions and restrictions will come into force on 2 December 2019 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) for a maximum duration of 18 months. Advance notice of closures will be displayed before the start of any works.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## ATODLEN 1

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill

1. Y darn o gefnffordd yr A449 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24 yr M4) hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Rhaglan yr A449 a'r A40, Sir Fynwy.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau nad ydynt yn gerbydau traffordd ac sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar hyd Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 tua'r gorllewin i Gylchfan Grove Park, ar hyd yr A4042 i Gylchfan Hardwick ac ar hyd yr A40 tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Rhaglan: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Y llwybr arall ar gyfer traffig traffordd sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar hyd yr M4 tua'r gorllewin o Gyffordd 24 i Gyffordd 25A (Grove Park) ac yna dilyn y llwybr a ddisgrifir uchod: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

2. Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449 wrth Gyfnewidfa Brynbuga, Sir Fynwy.

3. Y darnau o ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r gogledd a thua'r de yr A449/A40 wrth Gyfnewidfa Rhaglan, Sir Fynwy.

Codir arwyddion priodol i nodi'r llwybrau eraill yn ystod y cyfnodau pan fydd y ffyrdd ymuno ac ymadael ar gau, sef ar hyd yr A449 a/neu'r A40 tua'r gogledd/de, fel y bo'n briodol.

## ATODLEN 2

### Terfynau Cyflymder Dros Dro o 50 mya, 40 mya neu 10 mya a Dim Goddiwedd

Y darn o gefnffyrdd yr A449 a'r A40 sy'n ymestyn o'u cyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cyfnewidfa Coldra, Casnewydd (Cyffordd 24 yr M4) hyd at ganolbwynt trostont Chapel Lane, i'r gogledd o Drefynwy.

## SCHEDULE 1

### Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes

1. The length of the A449 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Coldra Interchange, Newport (M4 Junction 24) to the centre-point of the A449 and A40 Raglan Interchange, Monmouthshire.

The alternative route for non-motorway northbound vehicles is via the westbound A48 Southern Distributor Road to Grove Park Roundabout, A4042 to Hardwick Roundabout and eastbound A40 to Raglan Interchange: vice versa for southbound traffic.

The alternative route for northbound motorway traffic is via the westbound M4 from Junction 24 to Junction 25A (Grove Park) and then follow the route described above: vice versa for southbound traffic.

2. The lengths of the A449 northbound and southbound exit and entry slip roads at Usk Interchange, Monmouthshire.

3. The lengths of the A449/A40 northbound and southbound exit and entry slip roads at Raglan Interchange, Monmouthshire.

The alternative routes for slip road closures will be signed with appropriate diversion signs and will be via the northbound/southbound A449 and/or A40, as appropriate.

## SCHEDULE 2

### Temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph Speed Limits & No Overtaking

The length of the A449 and A40 trunk roads that extends from its junction with the circulatory carriageway of Coldra Interchange, Newport (M4 Junction 24) to the centre-point of Chapel Lane over-bridge, north of Monmouth.